

RHEOLAU GWEITHREFN CRAFFU 10 (3) A 10 (4)

- (3) Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud cais am osod eitem sy'n berthnasol i gylch gorchwyl Pwyllgor Craffu ar yr agenda. Bydd angen cyflwyno cais ffurfiol i Uned Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor erbyn 10 a.m. 7 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor (h.y. nid yw diwrnod clir yn cynnwys y diwrnod dderbyniwyd y cwestiwn na diwrnod y cyfarfod). Bydd y cais hwn yn amlinellu natur yr eitem, a pham y dylid ei hystyried mewn Pwyllgor Craffu. Bydd hawl gan y person sy'n cyflwyno'r cais i gyflwyno'r achos yn bersonol. Bydd y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael. Wedyn bydd y Pwyllgor yn penderfynu a yw'r cais i gael ei gymeradwyo a'i gynnwys ar agenda cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol, neu a ddylid gwrthod y cais. Rhoddir adborth ar benderfyniad y pwyllgor ynghylch y cais a chanlyniad unrhyw drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu i'r person sy'n cyflwyno'r cais.
- (4) Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd, os yw'n byw yn y Sir, yn berchen ar fusnes yn y Sir neu'n cael ei gyflogi gan y Sir, holi cwestiynau i'r Pwyllgor Craffu yn ystod ei gyfarfodydd cyffredin yn amodol ar roi rhybudd am y cwestiwn drwy ei gyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy bost electronig i Uned Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor erbyn 10 a.m. 7 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor (h.y. nid yw diwrnod clir yn cynnwys y diwrnod dderbyniwyd y cwestiwn na diwrnod y cyfarfod) a bod y cwestiwn yn ymwneud â mater y mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol amdano, neu sy'n effeithio ar y Sir a'i fod o fewn cylch gwaith y pwyllgor. Mae'n rhaid i bob cwestiwn gynnwys enw a chyfeiriad y sawl sy'n holi'r cwestiwn. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y sawl sy'n holi'r cwestiwn i gyflwyno'r cwestiwn i'r Pwyllgor. Os nad yw'r sawl sydd wedi cyflwyno cwestiwn yn ysgrifenedig yn gallu bod yn bresennol, gallai holi'r Cadeirydd i gyflwyno'r cwestiwn ar ei ran, yn hynny o beth gallai'r Cadeirydd holi'r cwestiwn ar ran y sawl sy'n holi, nodi y bydd ateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu, neu benderfynu, yn sgil absenoldeb y sawl sy'n holi'r cwestiwn, na fydd y Pwyllgor yn ymdrin â'r cwestiwn.